**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-963
Ein cyf/Our ref LG/01207/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

26 Mai 2020

Annwyl Janet

Diolch am eith llythyr dyddiedig 7 Mai ynghylch y ddeiseb i geisio ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd roi bwyd dros ben i elusennau.

Mae'r system cyflenwi bwyd wedi bod o dan bwysau mawr yn sgil y pandemig COVID-19 presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod unigolion yng Nghymru sy'n arbennig o agored i niwed, sy'n wynebu anawsterau ariannol ac sydd angen cymorth ar frys.

Mae Llywodraeth Cymru wedi meithrin cysylltiadau â dau randdeiliad banc bwyd mawr yng Nghymru – Ymddiriedolaeth Trussell a Fareshare. Mae gan y sefydliadau hyn brofiad helaeth o ddarparu bwyd i'r rhwydwaith banciau bwyd ledled Cymru.

Rydym wedi ceisio deall y sefyllfa bresennol ar gyfer yr holl fanciau bwyd ledled Cymru, gan gynnwys y rhai hynny sy'n dod o dan ymbarél Ymddiriedolaeth Trussel (tua 50% o fanciau bwyd ledled Cymru) a'r banciau bwyd annibynnol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau trydydd sector, fel elusennau ac eglwysi. Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Awdurdodau Lleol ledled Cymru i asesu'r sefyllfa o ran cyflenwi bwyd i fanciau bwyd ar hyn o bryd.

Hyd yma yn ystod yr argyfwng, mae banciau bwyd y DU wedi cael sicrwydd y byddant yn cael rhoddion o £10m gan Morrison's a £15m gan Tesco, a hynny drwy Ymddiriedolaeth Trussell a Fareshare. Mae'r Co-op hefyd wedi rhoi £1.5m ac Asda wedi rhoi £5m i fanciau bwyd drwy Ymddiriedolaeth Trussell a Fareshare. Yn lleol, mae siopau unigol yn rhoi stoc dros ben yn rheolaidd i gynlluniau ailddosbarthu bwyd lleol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Ymddiriedolaeth Trussell yng Nghymru wedi cadarnhau nad oes arni angen cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae gan ei rhwydwaith o fanciau bwyd ledled Cymru ddigon o gyflenwad i ateb y galw a digon o wirfoddolwyr i weithio yn y banciau bwyd yn ystod yr argyfwng.

Mae lleihau gwastraff bwyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i weithio â'r gadwyn gyflenwi bwyd i sicrhau bod gwastraff yn cael ei leihau a bod stoc dros ben yn cael ei hailddosbarthu yn ôl yr angen.

Rhaid canmol y camau gwirfoddol sy'n cael eu cymryd gan y diwydiant i fynd i'r afael â'r mater, yn enwedig yn ystod y pandemig presennol. Byddwn yn monitro'r adroddiadau a gyflwynir gan y gadwyn cyflenwi bwyd drwy'r cytundeb gwirfoddol, Ymrwymiad Courtauld, i weld a oes modd i ragor o fwyd dros ben gael ei ailddosbarthu yn hytrach na chael ei wastraffu. Pe bai angen cymryd camau pellach, dylai fod gennym opsiwn i'w gwneud yn ofynnol i ailddosbarthu bwyd dros ben o dan bwerau a geisir ar gyfer Gweinidogion Cymru o dan Fil yr Amgylchedd y DU.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs